Adra

Cod Ymddygiad Cyflenwyr

Cyflwyniad

Mae Adra yn darparu cartrefi a gwasanaethau i gwsmeriaid ledled gogledd a chanolbarth Cymru. Fel busnes cymdeithasol yn ei hanfod, rydym yn gwbl ymwybodol o'r cyfrifoldeb sydd gennym tuag at ein cwsmeriaid, gweithwyr a'r cymunedau yr ydym yn gweithio iddynt. Mae ein Gwerthoedd Craidd (**Agored a Theg**, **Uchelgeisiol** a **Dibynadwy**) yn rhan hanfodol o'r ffordd rydym yn gwneud busnes, ac rydym wedi ymrwymo'n llwyr i'r safonau uchaf o gyfrifoldeb cymdeithasol ac amgylcheddol ac ymddygiad moesegol.

Mae gennym gyfrifoldeb hefyd i sicrhau bod ein cadwyn gyflenwi yn gweithredu mewn ffordd gyfrifol a moesegol. Mae ein Cod Ymddygiad Cyflenwyr (y **Cod**), sy'n nodi'r safonau ymddygiad ac arfer gofynnol a ddisgwylir gan ein Cyflenwyr a'u hisgontractwyr, wedi'i seilio ar 4 piler sy'n cefnogi ein hymrwymiad i gyfrifoldeb cymdeithasol, iechyd, diogelwch, ansawdd a rhagoriaeth yn y maes amgylcheddol, a chael gwasanaethau/deunyddiau mewn ffordd foesol.

Mae'r Cod hwn yn berthnasol yn yr un ffordd i bob Cyflenwyr Adra, eu staff ac isgontractwyr. Rhaid i gyflenwyr gydymffurfio â'r holl gyfreithiau a rheoliadau perthnasol, yn ogystal â gofynion ac egwyddorion y Cod hwn. Rhaid i gyflenwyr gydymffurfio â safonau'r Cod hwn hyd yn oed os ydynt yn mynd y tu hwnt i ofynion y gyfraith berthnasol. Rydym yn gwerthfawrogi efallai bod gan rai sefydliadau eu Codau eu hunain ar waith. Lle mae trefniadau presennol ar waith yn barod a lle mae gwahaniaethau'n codi rhwng Cod Adra a Chod y Cyflenwr, bydd y safon fwyaf llym yn gymwys.

Mae gofynion y Cod hwn yn ychwanegol at, nid yn lle, darpariaethau unrhyw gytundeb neu gontract cyfreithiol rhwng Adra a Chyflenwr. Nid yw'r cod hwn, na dangos cydymffurfiaeth ag ef, yn creu unrhyw hawliau buddiolwyr i drydydd parti na buddiannau i Gyflenwyr, is-gontractwyr, eu gweithwyr hwy nac unrhyw drydydd parti arall.

Nodyn ar derminoleg :
Bydd / **ni fydd** yn awgrymu gofyniad;
Dylai / **ni ddylai** yn awgrymu argymhelliad;
Cyflenwr yn awgrymu unrhyw gwmni neu unigolyn sy'n darparu nwyddau, gwasanaethau neu waith, naill ai yn uniongyrchol neu yn anuniongyrchol, i Adra.

Piler 1: Hawliau Dynol

Diffiniad :

Fel sefydliad, mae Adra yn cydnabod y rhwymedigaeth foesol sydd gennym i ddiogelu hawliau'r holl bobl, yn y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu ac yn fyd-eang. Hawliau dynol yw hawliau sylfaenol y mae gan bob bod dynol yr hawl iddynt. Mae Adra wedi ymrwymo i weithredu yn unol â chyfreithiau cenedlaethol a rhyngwladol cymwys, safonau a chodau ymarfer ac yn cefnogi hawliau dynol drwy ein cadwyn cyflenwi drwy annog ymddygiadau ac arferion cadarnhaol.

Caethwasiaeth Fodern, Llafur Gorfodol a Masnachu Pobl :

Nid yw Adra yn goddef unrhyw fath o gaethwasiaeth, caethwasanaeth, llafur gorfodol neu lafur dan orfod a masnachu pobl yn ein cadwyn gyflenwi.

Ni fydd y Cyflenwr yn cymryd rhan mewn nac yn cael budd o unrhyw lafur gorfodol neu lafur dan orfod (gan gynnwys, ond heb eu cyfyngu i, ddefnyddio carcharorion, caethweision, llafur bond, gorfodol neu ymrwymedig), ac **ni fydd** yn cymryd rhan mewn nac yn cefnogi masnachu pobl.

Ni fydd y Cyflenwr:

- yn gofyn i weithwyr adael dogfennau gwreiddiol yn cynnwys manylion adnabod, dogfennau teithio neu unrhyw ddogfennau cyfreithiol personol eraill ar gychwyn eu cyflogaeth â'r Cyflenwr;
- yn gorfodi gweithwyr i weithio goramser;
- oedi neu beidio talu cyflog gweithiwr am fwy nag un mis ar sail reolaidd;
- caethiwo neu fod y gweithwyr yn ddarostyngedig i gyfyngiadau ar eu rhyddid i symud.

Cyflogaeth Foesegol :

Bydd gweithwyr y Cyflenwr yn derbyn cyflogaeth a buddion sydd, fel isafswm, yn cydymffurfio â chyfreithiau cenedlaethol neu safonau'r diwydiant, pa un bynnag sydd uchaf.

Bydd y Cyflenwr yn talu gweithwyr ar amser, yn unol â gofynion cyfreithiol; ym mhob amgylchiad, **bydd** cyflog yn cael ei dalu o leiaf yn fisol.

Dylai'r Cyflenwr dalu cyflog yn uniongyrchol i'r gweithwyr dan sylw, yn ddarostyngedig i unrhyw gyfyngiad neu ddidyniad a ganiateir yn unol â'r gyfraith, rheoliadau neu gydgytundebau.

Dylai'r Cyflenwr ddarparu contract ysgrifenedig i bob gweithiwr (parhaol, dros dro, tymhorol, domestig a mudol). Bydd y contract wedi'i hysgrifennu mewn iaith briodol sy'n cynnwys disgrifiad o ddyletswyddau swydd, buddion, gweithdrefnau disgyblu, a chyfnodau rhybudd.

Bydd y Cyflenwr yn darparu holl fuddion mandadol cyfreithiol, fel gwyliau statudol, gwyliau blynyddol â thâl, dyddiau salwch ac absenoldeb mamolaeth / tadolaeth / teuluol.

Bydd y Cyflenwr yn sicrhau nad yw hunangyflogaeth ffug yn cael ei ymgymryd ag ef ac nad yw cynlluniau ymbarél, contractau tymor penodol, contractau dim

oriau a chynlluniau prentisiaeth yn cael eu defnyddio yn annheg nac fel cyfrwng i:

- Osgoi, neu hwyluso osgoi, talu treth a chyfraniadau Yswiriant Gwladol a'r isafswm cyflog perthnasol;
- Achosi bod gweithwyr dan anfantais heb fod angen o ran tâl a hawliau cyflogaeth, diogelwch swydd a chyfleoedd gyrfa;
- Osgoi cyfrifoldebau Iechyd a Diogelwch.

Gwahaniaethu :

Bydd y Cyflenwr yn cydymffurfio â'r holl gyfreithiau a rheoliadau Cyfle Cyfartal.

Dylai'r Cyflenwr gael gweithdrefnau ysgrifenedig eglur ar gyfer recriwtio a dewis pob gweithiwr ar sail triniaeth deg a chyfartal o bob ymgeisydd.

Ni fydd y Cyflenwr yn gwahaniaethu yn erbyn unrhyw unigolyn na grŵp o unigolion ar sail hil, lliw, oedran, rhyw, rhywedd neu hunaniaeth o ran rhywedd, statws, barn wleidyddol, tarddiad cenedlaethol, crefydd, statws priodasol, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd neu wybodaeth enetig, mamolaeth, aelodaeth, ymlyniad neu statws arall yr unigolyn nad yw'n berthnasol i'r gallu i berfformio'r swydd.

Bydd y Cyflenwr yn gwneud addasiadau rhesymol i sicrhau bod pobl anabl yn gallu cael mynediad at a symud ymlaen mewn cyflogaeth.

Bydd y Cyflenwr yn darparu tâl cyfartal am waith o werth cyfartal.

Dylai'r Cyflenwr, lle bynnag y bo modd, ganiatáu i draddodiadau ac arferion cenedlaethol neu grefyddol gael eu dilyn.

Dylai'r Cyflenwr barchu cyfrifoldebau teuluol ei weithwyr drwy ddarparu oriau gwaith rhesymol ac absenoldeb rhiant

Oriau Gweithio :

Bydd y Cyflenwr yn sicrhau bod ei weithwyr yn gweithio yn unol â'r holl gyfreithiau cymwys a safonau mandadol y diwydiant o ran gweithio oriau gwaith rheolaidd, ac oriau goramser, gan gynnwys amser egwyl, cyfnodau gorffwys, gwyliau, ac absenoldeb mamolaeth a thadolaeth.

Llafur Plant :

Bydd y Cyflenwr yn cydymffurfio â'r cyfreithiau a'r rheoliadau mewn perthynas ag isafswm oedran gweithio.

Ni fydd y Cyflenwr yn defnyddio llafur plant o dan unrhyw amgylchiadau.

Lle mae Cyflenwr yn cyflogi gweithwyr ifanc, **bydd** yn cymryd camau rhesymol i sicrhau nad yw'r gweithwyr hyn yn cael eu hamlygu i risgiau corfforol a allai achosi niwed corfforol, meddyliol neu niweidio eu datblygiad emosiynol.

Diogelu

Bydd y Cyflenwr yn diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed. Os nad oes gan y Cyflenwr Bolisi Diogelu, bydd y Cyflenwr yn cydymffurfio â Pholisi a Gweithdrefnau Diogelu Adra.

Bydd y Cyflenwr yn cynnal ffiniau proffesiynol priodol bob amser, a bydd yn sicrhau bod ei weithwyr ac is-gontractwyr yn ymddwyn mewn ffordd sy'n amddiffyn cwsmeriaid rhag niwed, cam-fanteisio neu gamdriniaeth.

Bydd y Cyflenwr yn mabwysiadu a gweithredu polisïau/gweithdrefnau diogelu (gan gynnwys gweithdrefnau

recriwtio, dewis a fetio staff ac is-gontractwyr) a systemau nad ydynt yn llai llym na systemau Adra.

Bydd y Cyflenwr yn sicrhau bod yr holl weithwyr perthnasol (gan gynnwys is-gontractwyr) yn cael hyfforddiant a goruchwyliaeth diogelu sy'n briodol i'r rôl , yn gymesur â'r risgiau yn eu gwaith.

Bydd y Cyflenwr yn rhoi trefniadau adrodd cyfrinachol ar waith ac yn gwahardd dial yn erbyn unrhyw un sy'n codi pryder ynghylch diogelu neu ymddygiad a hynny gyda'r bwriadau gorau.

Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)

Bydd y Cyflenwr yn sicrhau bod ei holl weithwyr sy'n ymwneud â darparu Gwasanaethau wedi cael y lefel briodol o wiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) (Sylfaenol, Safonol neu Fanylach, gyda neu heb Restri Gwahardd yn ôl yr angen) o fewn y tair (3) blynedd diwethaf a chyn dechrau unrhyw waith i Adra.

Bydd y Cyflenwr yn penderfynu pryd y mae gwiriadau DBS Safonol neu Fanylach yn ofynnol yn ôl y gyfraith, rheoliad, contract neu asesiad risg. Bydd yn sicrhau bod gwiriadau o'r fath yn parhau i fod yn gyfredol, a bydd cyfnodau adnewyddu neu ailwirio sy'n gymesur â lefel y risg yn cael eu rhoi ar waith. Bydd y Cyflenwr yn gwirio manylion adnabod mewn ffordd gadarn fel rhan o'r broses DBS.

Bydd y Cyflenwr yn sicrhau bod ei weithwyr:

- **ni fydd** ei weithwyr wedi'u gwahardd rhag gweithio gyda phlant neu oedolion agored i niwed neu lle mae gwaith neu lle gellir rhagweld yn rhesymol bod gwaith o'r fath yn cael ei ymgymryd ag ef;
- **ni fydd** gan ei weithwyr unrhyw euogfarnau, rhybuddion, cerydd, rhybuddion heb eu disbyddu, neu fod yn rhan o ymchwiliadau a allai, ym marn resymol Adra, achosi risg i ddiogelwch neu lesiant tenantiaid, preswylwyr, ymwelwyr neu weithwyr Adra; a
- **ni fydd** yn cael ei ddefnyddio lle mae gwiriad DBS gofynnol ar goll, wedi dod i ben, yn anghyflawn, neu'n dangos bod yr unigolyn yn anaddas ar gyfer y rôl neu'n cyflwyno risg annerbyniol.

Bydd y Cyflenwr wedi gweld y datgeliad DBS diweddaraf ar gyfer pob unigolyn er mwyn asesu a ydynt yn addas ar gyfer y rôl. Bydd hefyd wedi gweld dogfennau adnabod dilys yn cadarnhau hawl gyfreithiol pob gweithiwr i weithio yn y Deyrnas Unedig, yn unol â Rhestr Wirio Hawl i Weithio'r Swyddfa Gartref.

Bydd y Cyflenwr yn cadw cofnodion priodol sy'n tystio i gydymffurfiaeth â'r cymal hwn a bydd, ar gais, yn darparu sicrwydd ysgrifenedig i Adra (heb drosglwyddo tystysgrif), gan gynnwys ardystiadau ysgrifenedig neu ddetholiadau cofnodion dienw yn cadarnhau math a dyddiad y gwiriad DBS, addasrwydd ar gyfer y rôl, a chadarnhad nad oedd y defnydd wedi digwydd cyn ei glirio gan wiriad DBS.

Bydd y Cyflenwr yn rhaeadru'r rhwymedigaethau DBS hyn i bob is-gontractwr a **bydd** yn cynnal goruchwyliaeth briodol i sicrhau cydymffurfiaeth.

Lle mae gwiriad DBS gofynnol ar goll, wedi dod i ben neu'n anaddas, **bydd** y Cyflenwr yn hysbysu Adra ar unwaith, yn tynnu'r unigolyn o gwmpas y Gwasanaethau, ac yn rhoi camau cywirol priodol ar waith.

Mae gan Adra yr hawl i fynnu bod unrhyw staff contract neu is-gontract yn cael eu tynnu o unrhyw aseiniad lle penderfynir nad oes gwiriad DBS priodol ar waith neu lle mae unigolyn yn peri risg bosibl oherwydd euogfarnau, rhybuddion, cerydd neu rybuddion heb eu disbyddu.

Safonau ac Ymddygiad Proffesiynol:
Bydd y Cyflenwr yn Dangos cwrteisi, uniondeb, diduedd rwydd, prydlondeb, sobrwydd a pharch at drigolion a rhanddeiliaid, gan adlewyrchu gwerthoedd Adra.

Bydd y Cyflenwr yn sicrhau **na fydd** ei bersonél yn:

- Ymwneud ag aflonyddu rhywiol neu unrhyw fath arall o ymddygiad amhriodol;
- Ffurfio neu geisio ffurfio unrhyw berthnasoedd newydd â chwsmeriaid Adra wrth ddarparu'r Gwasanaethau. (Nid yw'r cyfyngiad hwn yn berthnasol lle mae perthynas flaenorol gyda chwsmer Adra eisoes yn bodoli);
- Cam-drin neu gam-fanteisio ar gwsmeriaid yn ariannol, yn emosiynol, yn gorfforol neu'n rhywiol;
- Ymddwyn mewn ffordd a allai gael ei gamddehongli neu danseilio ymddiriedaeth.

Rhyddid i Ymgysylltu a Bargeinio ar y Cyd
:

Bydd y Cyflenwr yn parchu hawl gweithwyr i ffurfio ac ymuno ag undebau llafur a bargeinio ar y cyd mewn ffordd gyfreithlon a heddychlon, yn amodol ar ac yn unol â chyfraith gymwys.

Ni fydd y Cyflenwr yn gwahaniaethu yn erbyn gweithwyr oherwydd ymlyniad neu ddiffyg ymlyniad ac **ni fydd** gweithwyr sy'n gweithredu fel cynrychiolwyr gweithwyr dan anfantais.

Piler 2: Uniondeb Busnes

Diffiniad :

Mae Adra yn gweithredu ein busnes â'r safonau moesegol uchaf o ran cywirdeb ac uniondeb. Rydym yn cydnabod bod safonau uchel o ymddygiad moesegol a chydymffurfiad â chyfreithiau a rheoliadau yn hanfodol i warchod ein henw da a llwyddiant ein busnes yn y tymor hir. Rydym hefyd yn cydnabod bod y risgiau yr ydym yn agored iddynt drwy ein cadwyn cyflenwi, ac felly rydym yn disgwyl i'n Cyflenwyr ymddwyn yn foesegol, ymddwyn ag uniondeb a chydymffurfio â gofynion cyfreithiol a gofynion y diwydiant.

Gwrthdaro Buddiannau :

Bydd y Cyflenwr yn datgelu i Adra unrhyw sefyllfa a allai ymddangos fel pe bai gwrthdaro buddiannau.

Llwgrwobrwyo, Twyll, Dichell :

Ni fydd y Cyflenwr yn cynnig nag yn derbyn gan eu partneriaid busnes (gan gynnwys Adra) lwgrwobrwyon neu gynigion anghyfreithlon fel ffordd o gael mantais amhriodol neu ormodol.

Dylai'r Cyflenwr gael polisïau wedi'u dogfennu, prosesau a / neu weithdrefnau ar waith er mwyn atal twyll, gwyngalchu arian, llwgrwobrwyo, taliad anghyfreithlon neu anfoesegol (kickbacks), llygredd ac arferion busnes tebyg sydd wedi'u gwahardd.

Ni ddylai'r Cyflenwr gynnig unrhyw roddion i weithiwr Adra nac unrhyw fath arall o fudd personol o ganlyniad i berthynas â'r Cyflenwr.

Chwythu'r Chwiban :

Dylai fod gan y Cyflenwr systemau ar waith sy'n galluogi cwynion dienw, adrodd a rheoli.

Cystadleuaeth Deg a Gwrthlygredd :

Bydd y Cyflenwr yn cynnal ei weithgareddau mewn ffordd sy'n gyson â chyfreithiau a rheoliadau cystadleuaeth a chydweithredu â'r awdurdodau priodol.

Ni fydd y Cyflenwr yn cymryd rhan mewn unrhyw fidio cydfwriadol, trefnu pris, gwahaniaethu pris, neu arferion masnach annheg eraill sy'n groes i gyfreithiau a rheoliadau cystadleuaeth.

Talu Anfonebau Diamheuol yn Brydlon :

Bydd y Cyflenwr yn sicrhau bod eu cyflenwyr ac is-gontractwyr yn cael eu talu ar amser, ac o fewn uchafswm 30 diwrnod o dderbyn anfoneb ddilys, ddiamheuol.

Ni fydd y Cyflenwr yn peidio talu yn afresymol, ac **ni fydd** yn gosod cymalau cadw afresymol ar eu cyflenwyr ac is-gontractwyr. Lle'n bosib, **dylai'r** Cyflenwr glustnodi arian dargadw trwy ei roi mewn cyfrif ymddiriedolwr neu gyfrif banc ar wahân.

Diogelu Data a Phreifatrwydd :

Bydd y Cyflenwr yn cyfyngu ar gasglu data personol i wybodaeth sydd naill ai yn hanfodol ar gyfer darparu cynhyrchion a gwasanaethau neu sy'n cael eu darparu â chydsyniad gwirfoddol ar sail gwybodaeth y cwsmer.

Bydd y Cyflenwr yn diogelu data personol trwy fesurau diogelwch digonol.

Ni fydd y Cyflenwr yn datgelu, gwneud ar gael neu fel arall ddefnyddio data personol at ddibenion heblaw'r rheini sydd wedi'u

nodi, gan gynnwys marchnata, heblaw â chydsyniad gwirfoddol ar sail gwybodaeth y cwsmer neu pan fydd gofyn yn ôl y gyfraith.

Bydd y Cyflenwr yn casglu, rheoli a dinistrio data yn unol â Deddf Diogelu Data 2018 a Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol 2016/679 (GDPR)

Piler 3: Iechyd a Diogelwch

Diffiniad :

Mae Adra wedi ymrwymo i gyflawni ei weithgareddau busnes yn unol â rhwymedigaethau cyfreithiol fel y'u nodir yn Neddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974, Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 a phob deddfwriaeth gysylltiedig arall. Mae gennym ddull cadarn at iechyd a diogelwch trwy ein system reoli achrededig ISO 45001:2015, ac rydym yn disgwyl safonau tebyg gan ein Cyflenwyr o ran darparu amgylchedd gweithio iach a diogel, cydymffurfio â gofynion cyfreithiol a diwydiant a cheisio gweithredu arfer gorau yn eu diwydiannau.

Iechyd a Diogelwch :

Bydd y Cyflenwr cyn belled ag y mae'n ymarferol bosibl yn cydymffurfio â holl ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch ac yn sicrhau bod lefelau priodol o yswiriant cyflogeion ac atebolrwydd cyhoeddus ar waith.

Bydd y Cyflenwr cyn belled ag y mae'n ymarferol bosibl yn sicrhau bod unrhyw leoliad gwaith o dan eu rheolaeth yn cael ei gynnal mewn cyflwr diogel a heb risgiau i iechyd ac yn cadw mynedfa ac allanfa yn ddiogel a heb risg.

Bydd y Cyflenwr yn sicrhau bod trefniadau ar waith i nodi peryglon sy'n gysylltiedig â'u gweithgareddau gwaith ac yn rhoi mesurau rheoli ar waith i leihau risgiau i'w weithwyr, contractwyr, ymwelwyr a'r rheini yn y gymuned a allai gael eu heffeithio gan eu gweithgareddau.

Bydd y Cyflenwr yn darparu amddiffyniad iechyd a diogelwch cyfartal i weithwyr llawn amser, rhan-amser a dros dro, yn ogystal â gweithwyr sy'n gweithio i is-gontractwyr.

Dylai bod gan y Cyflenwr Bolisi Iechyd a Diogelwch wedi'i ddogfennu.

Safonau Ansawdd :

Bydd y Cyflenwr yn bodloni gofynion ansawdd a diogelwch sydd wedi'u cytuno trwy gontract neu sy'n cael eu cydnabod er mwyn darparu nwyddau a gwasanaethau sy'n diwallu gofynion Adra yn gyson, yn cael eu perfformio yn unol â'r warant ac yn ddiogel at y defnydd y bwriedir ei wneud ohonynt.

Bod yn barod ar gyfer Argyfwng, Parhad Busnes ac Adfer ar ôl Trychineb :

Bydd gan y Cyflenwr drefniadau ar waith ar gyfer sefyllfaoedd argyfwng, gan gynnwys adnoddau cymorth cyntaf priodol- a mesurau rheoli tân effeithiol. Dylai'r Cyflenwr hefyd gynllunio ar gyfer risgiau ehangach fel digwyddiadau seiber-ddiogelwch, digwyddiadau tywydd eithafol, ac amhariadau eraill a allai effeithio ar bobl, gweithrediadau neu'r amgylchedd.

Dylai bod gan y Cyflenwr bolisïau, prosesau a / neu weithdrefnau Adfer ar ôl Trychineb a Pharhad Busnes wedi'u dogfennu ar waith.

PPE :

Bydd y Cyflenwr yn darparu, yn ddi-dâl, yr holl offer diogelwch sydd ei angen, gan gynnwys offer diogelu personol (PPE), lle bo angen hynny i amddiffyn gweithwyr rhag niwed a lle na ellir rheoli risgiau'n ddigonol gan fesurau rhesymol ymarferol eraill.

Hyfforddiant :

Bydd y Cyflenwr yn sicrhau bod gwybodaeth o'r fath, cyfarwyddyd, hyfforddiant a goruchwyliaeth yn cael ei ddarparu yn ôl yr angen i sicrhau, cyn belled ag y mae'n ymarferol resymol, iechyd a diogelwch yn y gwaith ei weithwyr ac eraill sy'n gwneud gwaith ar eu rhan.

Offer Gwaith

Bydd y Cyflenwr yn sicrhau bod holl gyfarpar, offer a chyfarpar arall sy'n cael eu defnyddio i gynhyrchu ac yn cael eu defnyddio ar gyfer gweithrediadau yn cael eu cadw mewn cyflwr diogel, yn cael eu harchwilio yn unol â gofynion cyfreithiol, ac ond yn cael eu gweithredu gan unigolion cymwys.

Piler 4: Rheoli Effaith Amgylcheddol

Diffiniad :

Mae Adra wedi ymrwymo i sicrhau nad yw unrhyw weithgareddau a gaiff eu cynnal ar unrhyw un o'n safleoedd, naill ai gennym ni neu gan rai yn gweithio ar ein rhan, yn effeithio yn negyddol ar yr amgylchedd. Rydym yn gwneud hyn drwy ein system rheoli amgylcheddol achrededig ISO14001:2015, a'r holl ddeddfwriaeth amgylcheddol berthnasol sydd wedi'u nodi. Mae Adra yn disgwyl i Gyflenwyr gefnogi egwyddorion rheoli amgylcheddol cadarn ac anelu at wella eu perfformiad amgylcheddol yn barhaus.

Amgylchedd :

Bydd y Cyflenwr yn ymwybodol o'r agweddau a'r effeithiau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â'u gweithgareddau gwaith ac yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth a rheoliadau sy'n ymwneud â diogelu'r amgylchedd.

Dylai fod gan y Cyflenwr bolisi amgylcheddol / cynaliadwyedd wedi'i ddogfennu sy'n briodol i faint a natur eu gweithrediadau.

Cynaliadwyedd ac Effeithlonrwydd Adnoddau :

Bydd y Cyflenwr yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau naturiol, gan gynnwys deunyddiau crai, ynni a dŵr.

Dylai'r Cyflenwr o dro i dro asesu a gwerthuso effeithiau amgylcheddol o gynhyrchu a gweithrediadau a datblygu cynlluniau ymarferol i leihau effeithiau amgylcheddol.

Dylai'r Cyflenwr gymryd camau rhagweithiol i leihau allyriadau carbon sy'n deillio o'i weithrediadau, cynhyrchion, gwasanaethau a chadwyni cyflenwi. Mae hyn yn cynnwys nodi prif ffynonellau allyriadau nwyon tŷ gwydr, gweithredu mesurau ymarferol i leihau'r defnydd o ynni, gwella effeithlonrwydd tanwydd, dewis deunyddiau neu brosesau sy'n gwneud defnydd llai o garbon, a chefnogi'r newid i ynni adnewyddadwy neu dechnolegau allyriadau ynni-isel lle bynnag y bo'n bosibl

Gwastraff :

Bydd y cyflenwr yn sicrhau ei fod yn cymryd pob mesur angenrheidiol sy'n rhesymol yn yr amgylchiadau, i roi'r hierarchaeth gwastraff ar waith i atal gwastraff, a rhoi'r hierarchaeth ar waith fel gorchymyn blaenoriaeth pan fydd gwastraff yn cael ei drosglwyddo i unigolyn arall.

Bydd y cyflenwr yn sicrhau bod ganddynt brosesau ar waith i sicrhau bod gwastraff yn cael ei drin, symud a'i storio'n ddiogel.

Bydd y cyflenwr yn sicrhau bod ganddynt brosesau ar waith i sicrhau bod gwastraff yn cael ei drin, trosglwyddo a'i waredu gan yr unigolion hynny sy'n meddu ar y drwydded ofynnol a bod trywydd o'r crud

i'r bedd wedi'i ddogfennu ar gael ar gyfer pob gwastraff sy'n cael ei gynhyrchu.

Cyfrifoldeb Cymuned:

Dylai'r Cyflenwr gefnogi cymunedau cynaliadwy drwy ddarparu gweithgaredd cyflogaeth ac economaidd drwy arferion teg a moesegol a chydnabod pwysigrwydd datblygu gweithlu cymwys sy'n meddu ar sgiliau.

Niwsans:

Bydd y Cyflenwr yn sicrhau bod mesurau rheoli ar waith ar gyfer ei weithgareddau gwaith, sy'n lleihau effaith niwsans amgylcheddol fel sŵn, dirgryniad, llwch, mwg neu olau artiffisial a allai effeithio ar fflora, ffawna a chymunedau lleol.

Atal Llygredd:

Bydd y cyflenwr yn sicrhau, pryd bynnag y bydd eu gweithgareddau gwaith yn cynnwys storio, trin, defnyddio neu gynhyrchu llygryddion amgylcheddol posibl, fod trefniadau ar waith i atal y llygryddion rhag mynd i mewn i lwybrau fel draeniau dŵr wyneb neu ddraeniau storm, cyrsiau dŵr neu ddŵr daear sy'n arwain at halogiad amgylcheddol.

Dylai trefniadau gynnwys trefniadau mewn argyfwng i leihau difrod amgylcheddol rhag ofn y bydd dŵr yn gorlifo neu yn gollwng.

Cydnabyddiaeth y Cyflenwr

Rwyf i / ni, sydd wedi llofnodi isod, yn cadarnhau drwy hyn:

- Rwyf i / ni wedi cael ac wedi talu sylw dyladwy i God Ymddygiad Cyflenwyr Adra;
- Byddaf / Byddwn yn cydymffurfio'n llawn â gofynion Cod Ymddygiad Cyflenwyr Adra, a byddwn yn hysbysu Adra o unrhyw ddiffyg cydymffurfio;
- Rwyf i / ni yn ymwybodol o'r holl gyfreithiau a rheoliadau perthnasol sy'n effeithio ar y gweithle;
- Byddaf / Byddwn yn hysbysu pob gweithiwr ac is-gontractwyr o gynnwys Cod Ymddygiad Cyflenwyr Adra ac yn sicrhau eu bod hefyd yn cydymffurfio â'r darpariaethau sydd wedi'u cynnwys ynddo;
- Byddaf / Byddwn yn darparu ymatebion i Adra i'w ceisiadau rhesymol am wybodaeth ynghylch cydymffurfio â'r Cod Ymddygiad.

Ar gyfer ac ar ran: _____

Llofnod: _____

Enw wedi ei brintio: _____

Swydd: _____

Dyddiad: _____

D.S: RHAID I GYNRYCHIOLYDD AWDURDODEDIG O'R CYFLENWR LOFNODI'R DDOGFEN HON A'I DYCHWELYD TRWY E-BOST I DÎM CAFFAEL ADRA – caffael@adra.co.uk